# CYNGOR CYMUNED

## Beth mae'r cyngor cymuned yn ei wneud?

Mae aelodaeth Cyngor Cymuned Dolwyddelan yn cynnwys 8 cynghorydd sy'n cynrychioli Dolwydden, Pont Rufeinig, Pont-y-Pant a holl ardal LL25 Dyffryn Lledr. Y Clerc ydy'r swyddog cyllid a monitro. Mae cadeirydd ac is-gadeirydd ynghyd â sawl is-bwyllgor dan rôl oruchwyliol Cyngor Cymuned Dolwyddelan. Mae gan y cyngor cymuned nifer o gyfrifoldebau syml er mwyn gwneud bywyd y gymuned yn fwy cyfforddus, y mae llawer ohonynt yn cael eu cymryd yn ganiataol. Yn ei hanfod, mae'r pwerau hyn yn disgyn o fewn tri phrif gategori: cynrychioli'r etholaeth gyfan yn y gymuned; darparu gwasanaethau i gwrdd ag anghenion lleol; ac ymdrechu i wella ansawdd bywyd yn y gymuned. Gall pwerau unigol gynnwys prosiectau ieuenctid lleol, gweithgareddau twristiaeth, cyfleusterau hamdden, meysydd parcio, toiledau cyhoeddus, biniau sbwriel, goleuadau stryd, glanhau strydoedd, mynwentydd, rhandiroedd, safleoedd bws, tiroedd comin, mannau agored, llwybrau cerdded, llwybrau march a mesurau lleihau troseddau. Gall y cyngor cymuned hefyd wneud sylwadau ar geisiadau cynllunio - rydym ni'n ymgynghorai statudol ac yn gallu cael ein cynrychioli mewn ymholiadau cyhoeddus. Bu i Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 gyflwyno grym newydd 'lles' sy'n adlewyrchu menter Llywodraeth Cymru i adfywio democratiaeth leol gan alluogi'r sector i wneud mwy i wella sefyllfa gymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol unrhyw ardal. Mae'r Cyngor Cymuned yn gallu gwneud cais am grantiau/cyllid i gyflawni gwaith yn unol â'r amcanion hyn, fel digwyddodd gyda Mynwent Bryn y Bedd sydd wedi'i drafod yn y cylchlythyr hwn. Mae'r Cyngor Cymuned yn gyfrifol am gynnal a chadw'r Senotaff, Mynwent Bryn y Bedd a'r toiledau cyhoeddus. Mae'r Cyngor hefyd yn gyfrifol am rai o'r biniau baw ci.

Ailgylchu - Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi dweud na fyddant yn dosbarthu'r calendr casglu biniau y flwyddyn nesaf. Bydd y calendr ar gael ar wefan Conwy i'w lawrlwytho a'i argraffu neu bydd modd lawrlwytho'r ap o wefan y Cyngor dan y pennawd Preswylwyr> Ailgylchu a Gwastraff> Ap Conwy. Bydd yr ap yn eich atgoffa bob nos Fawrth o'r hyn gaiff ei gasglu'r diwrnod canlynol. Mae'r Cyngor Sir hefyd wedi rhoi'r gorau i ddarparu'r sgipiau cymunedol i gynghorau cymuned, felly rydym ni'n gweithio gyda chynghorau Betws, Trefriw a Chapel Curig i weld oes modd dod o hyd i gwmni i ddarparu'r sgipiau ddwywaith y flwyddyn. Yn y cyfamser, mae Cyngor Conwy yn gwneud casgliad gwastraff crynswth am hyd at 4 eitem am £30 os oes gennych chi unrhyw beth mawr sydd angen ei gasglu.

## Cysylltedd Digidol Gwledig fel rhan o'r Cynllun Cymunedol

Mae Menter Môn a Chyngor Conwy yn gweithio gyda'i gilydd ar brosiect o'r enw Cysylltedd Digidol Gwledig. Fel y gwyddom, mae rhannau yn ardal LL25 Dolwyddelan lle mae cysylltedd yn parhau i fod yn broblem. Mae Menter Môn, mewn cydweithrediad ag eraill ar ran Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru gyda Chyllid Llywodraeth y DU, yn gweithio ar fynd i'r afael â'r broblem. Mae'r